Superfast Business Wales

# Canllaw Busnes

# Rheoli Risgiau TG

Wrth i'ch busnes ddibynnu'n gynyddol ar ei systemau TG a manteisio ar y cyfleoedd sy'n bresennol drwy Fand Eang Cyflym Iawn, daw'n fwyfwy pwysig nodi a rheoli'r bygythiadau yn amrywio o hacwyr i fethiant cyfarpar mae'r systemau hyn yn eu hwynebu.

www.business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy | 03000 6 03000

Busnes Cymru Business Wales

UNDEB EWROPEAIDD EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru Welsh Government
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund

Llywodraeth Cymru Welsh Government

# Rheoli Risgiau TG

Wrth i'ch busnes ddibynnu'n gynyddol ar ei systemau TG a manteisio ar y cyfleoedd sy'n bresennol drwy Fand Eang Cyflym Iawn, daw'n fwyfwy pwysig nodi a rheoli'r bygythiadau yn amrywio o hacwyr i fethiant cyfarpar mae'r systemau hyn yn eu hwynebu. Mae'n hanfodol deall y bygythiadau hyn, asesu'r tebygolrwydd y byddan nhw'n digwydd ac ystyried yr effaith ar eich busnes os byddan nhw'n digwydd mewn gwirionedd. Dyma yn gryno yw rôl rheoli risg TG.

Beth rydym yn edrych arno yma yw elfen o reoli risgiau sefydliadol sy'n canolbwyntio'n benodol ar systemau, gwasanaethau a rhwydweithiau TG. Y bwriad yw nodi risgiau posibl sy'n ymwneud â TG a rhoi mesurau priodol ar waith i'w lliniaru.

Felly mae rheoli risgiau yn chwarae rhan allweddol o ran diogelwch eich systemau TG am ei fod,i bob pwrpas, yn nodi'r bygythiadau mae angen i'ch meddalwedd a'ch prosesau diogelwch amddiffyn yn eu herbyn. Mae ganddo hefyd gysylltiadau cryf â'ch cynlluniau parhad busnes oherwydd bod angen i'r cynlluniau hyn nodi sut rydych yn bwriadu ymdrin â methiannau systemau os bydd y risgiau a nodwyd gennych yn digwydd mewn gwirionedd.

Bydd y canllaw hwn yn edrych ar pam mae rheoli risgiau TG mor bwysig i fusnesau a sut i weithredu proses rheoli risgiau drwy gyfres o gamau wedi'u diffinio'n dda.

> Nid yw rheoli risg TG yn gweithio ‘allan o’r bocs’. Nid yw’n gynnyrch i'w brynu nac yn bolisi i'w roi yn ei le. Yn hytrach, mae'n broses o reoli risgiau busnes y mae’n rhaid ei chynnal yn barhaus. (Gartner)

## Deall

### Beth mae proses Rheoli Risgiau yn ei Wneud?

I rai pobl mae rheoli risgiau yn golygu yswiriant. Fodd bynnag, ar ei orau dim ond arian y gall yswiriant ei ddarparu – ac ni fydd hynny o reidrwydd yn dod ar yr adeg gywir na bod yn ddigonol ynddo'i hun i achub eich busnes.

**Felly mae rheoli risg yn ymwneud â:**

- Nodi'r risgiau posibl i'ch seilwaith TG
- Asesu'r tebygolrwydd y bydd y risgiau hyn yn digwydd mewn gwirionedd
- Cynllunio sut i leihau'r effaith ar eich busnes os byddan nhw’n digwydd
- Cynllunio ar gyfer adfer gallu gweithredol os bydd y risg yn digwydd er gwaethaf y rhagofalon a gymerwyd

## Nodi risgiau

Mae eich systemau TG a'r wybodaeth a gedwir ynddyn nhw’n wynebu amrywiaeth o fygythiadau. Gall y rhain amrywio o risgiau ar-lein hyd at fethiant seilwaith a gwallau dynol.

Mae gan unrhyw rai o'r problemau uchod y potensial i amharu'n ddifrifol ar eich busnes, colli archebion cwsmeriaid a niweidio eich enw da, a hynny am byth mewn rhai achosion.

Mae pwyslais rheoli risgiau ar nodi’r risgiau posibl cyn gynted â phosibl – gwell un gair ymlaen na dau yn ôl. Ar ôl nodi’r bygythiadau y gall eich systemau TG eu hwynebu, gallwch wedyn fynd ati i roi mesurau ar waith i'w lleihau neu eu dileu'n llwyr.

## Asesu'r risgiau

Mae'r agwedd hon ar reoli risgiau yn ymwneud ag amcangyfrif tebygolrwydd ac effaith debygol risgiau unigol er mwyn iddyn nhw allu cael eu blaenoriaethu yn unol â hynny. Bydd y blaenoriaethu hwn yn seiliedig nid yn unig ar y tebygolrwydd o'r risg yn digwydd, ond hefyd ar bwysigrwydd y wybodaeth, y gwasanaeth neu'r adnodd sydd o dan fygythiad o'r herwydd.

Dylai'r asesiad hefyd ystyried parodrwydd y sefydliad i gymryd risgiau. Mae risg yn chwarae rhan hanfodol mewn busnes heddiw, ac mae gofyn i weithredwyr a rheolwyr gydbwyso risgiau a gwobrwyon ynghylch bron pob penderfyniad busnes y maen nhw’n ei gymryd . Felly, dylai risg TG hefyd gael ei gweld yng nghyd-destun lefel y risg y mae'r sefydliad yn gyfforddus â hi.

## Lleihau’r risgiau

Ar y cam hwn mae rheoli risgiau yn ymwneud â chynllunio ymatebion priodol i risgiau, pennu perchnogion a gweithredwyr ac yna mynd ati i weithredu, monitro a rheoli'r ymatebion hyn. Yn ei hanfod rydym yn ceisio lleihau'r tebygolrwydd y bydd y risg yn digwydd a chyfyngu ar ei heffaith os bydd yn digwydd.

## Cynllunio ar gyfer adfer

Yn anochel, er gwaethaf yr holl gynllunio, bydd rhai risgiau yn troi’n ddigwyddiadau, gan arwain at broblemau amrywiol o ran darparu TG a gwasanaethau ar y we. Mewn achosion o'r fath mae'n hanfodol sicrhau bod y gwasanaethau hyn ar waith cyn gynted â phosibl a lleihau'r tarfu a'r effaith ariannol ar y busnes. Dyma lle mae rheoli risg yn trosglwyddo i gynllunio parhad busnes. I gael rhagor o wybodaeth am sut i ddatblygu cynlluniau effeithiol a fydd yn galluogi eich busnes i adfer ar ôl trychineb gyda chyn lleied o darfu â phosibl a sicrhau eich bod yn ‘masnachu fel arfer’ cyn gynted â phosibl.

# Mabwysiadu

## Dechrau Arni

Fel y nodwyd yn flaenorol, mae rheoli risgiau TG yn broses sy'n cynnwys nifer o gamau ar wahân.

### Cynnal asesiad risg

Wrth asesu'r risgiau TG y gall eich busnes eu hwynebu dylech ganolbwyntio ar y risgiau mwyaf difrifol, yn seiliedig ar y tebygolrwydd y bydd y risg yn digwydd a'r gost neu'r effaith os bydd yn digwydd.

Felly, mae'r pwyslais yn y cam asesu risg ar y risgiau posibl i'ch systemau TG ac effaith bosibl y rhain ar eich busnes. Ymhlith yr enghreifftiau o risgiau sydd angen eu hystyried mae:

- **Bygythiadau ffisegol** - y risg y gallai eich systemau TG fod yn anweithredol o ganlyniad i ladrad neu ddifrod gan dân neu lifogydd
- **Bygythiadau ar-lein** – y perygl y gallai haciwr, er enghraifft, ddwyn eich cronfa ddata o gwsmeriaid, heintio eich system TG gyda feirws, neu beri i'ch gwefan fod yn destun ymosodiad atal gwasanaeth (DoS) sy'n peri i'r safle gynnig lefel is o wasanaeth neu, mewn rhai achosion, peri iddo roi'r gorau i weithredu'n gyfan gwbl.
- **Cyfrinachedd data** - y risg y bydd gwybodaeth gyfrinachol neu sensitif yn cael ei chamddefnyddio (efallai oherwydd gwall dynol neu gan eich staff) neu'n disgyn i ddwylo'r rhai na ddylai gael mynediad iddi.
- **Cywirdeb data** - y risg bod y data sylfaenol yn eich systemau busnes allweddol yn annibynadwy am eu bod yn anghyflawn, yn anghywir neu fel arall dan amheuaeth
- **Argaeledd data** - gall colli gwasanaeth yn y tymor byr yn sgil methiant systemau TG gael effaith sylweddol - a hirdymor o bosibl - ar waith eich busnes o ddydd i ddydd.
- **Risg i'r prosiect** - y risg y bydd buddsoddiad mewn TG yn methu â darparu'r gwerth busnes disgwyli edig
- **Diffyg sgiliau**– y risg y bydd cystadleuwyr yn denu aelod o'ch staff sydd â gwybodaeth allweddol rydych yn dibynnu'n fawr arni
- **Materion yn ymwneud â ch yflenwyr** – y risg y bydd cyflenwr rydych yn dibynnu arno am wasanaeth allweddol yn dioddef problem fawr gyda'i systemau, yn methu â darparu'r lefelau priodol o gynnal a chadw i'ch systemau neu'n rhoi'r gorau i fasnachu

### Mesurwch y risgiau

Ar ôl nodi'r risgiau, y cam nesaf yw eu mesur yn ôl y tebygolrwydd y byddan nhw'n digwydd a'r effaith debygol os byddan nhw'n digwydd.

Gellir asesu'r tebygolrwydd fel uchel, canolig neu isel, a gellir gwneud hynny gyda'r effaith hefyd. Gall matrics syml, fel yr un a ddangosir isod, helpu i dynnu sylw at y risgiau tebygolrwydd uchel ac effaith uchel.

## Rheoli'r risgiau

Pan fydd y risgiau wedi'u mesur, ceir gofy niad i benderfynu ar y dull o'u rheoli neu eu lliniaru.

Ceir nifer o ddulliau posibl:

- **Derbyn y risg** – gwneud dim
- **Osgoi'r risg** – gwneud rhywbeth arall, er enghraifft dewis ateb ar y cwmwl yn hytrach nag ateb mewnol
- **Lleihau'r risg** – cymryd camau lliniaru, fel gweithredu rheolaethau diogelwch cryf i ddiogelu gwybodaeth sensitif
- **Rheoli'r risg** - lleihau'r effaith, efallai drwy ddefnyddio mwy nag un cyflenwr
- **Trosglwyddo'r risg** – rhoi'r gweithgarwch ar gontract allanol neu drefnu rhyw fath o yswiriant

Yr allwedd i'r cam rheolaeth yw cynllunio ymatebion priodol i'r risgiau a nodwyd gennych. Mae hefyd yn werth nodi y dylai unrhyw wrthfesurau fod yn gymesur i'r risgiau y maen nhw wedi'u bwriadu i warchod yn eu herbyn.

Er enghraifft, nid oes fawr o bwynt gwario £5,000 i ddiogelu eich busnes yn erbyn risg a fydd dim ond yn costio £500 ichi os bydd yn digwydd mewn gwirionedd.

## Adolygu effeithiolrwydd y mesurau

Mae'n bwysig bod proses rheoli risgiau yn cael ei gweld fel proses barhaus yn hytrach nag ateb untro. Mae'r dirwedd risgiau'n newid yn barhaus ac mae bygythiadau newydd yn dod i'r amlwg bron bob dydd. Felly, dylech ailasesu'r bygythiadau i'ch systemau TG yn barhaus a chwilio am fygythiadau newydd drwy gynnal yr adolygiad dadansoddi risgiau yn rheolaidd.

Ac, fel y nodwyd gennym yn flaenorol, os bydd y gwaethaf yn digwydd ac y bydd risg yn arwain at ddigwyddiad sy'n difrodi eich systemau, yna mae'n hanfodol bod modd i'ch cynllun parhad busnes gael ei weithredu a sicrhau eich bod yn dychwelyd i weithredu eich busnes yn ôl yr arfer mor gyflym a diffwdan â phosibl.

## Ymelwa

### Pa Fanteision Busnes y Gallaf eu Disgwyl

Gall rheoli risgiau'n effeithiol arwain at amrywiaeth eang o fanteision i sefydliad, o safbwynt TG ac o safbwynt busnes ehangach.

#### Manteision sy'n gysylltiedig â TG

- Mae'n sicrhau bod y risgiau i'ch systemau a gwasanaethau TG yn cael eu nodi mewn ffordd strwythuredig a bod goblygiadau'r r hain yn cael eu deall yn llawn.
- Mae'n eich galluogi i ystyried y risgiau hyn i'ch systemau TG wrth gynllunio ar gyfer diogelwch a pharhad busnes er mwyn i'r rhan fwyaf o risgiau gael eu lliniaru, ac os bydd rhai risgiau'n dal i ddigwydd, bydd y busnes yn weithredol gyda chyn lleied o darfu â phosibl.
- Yn anad dim, dylech ystyried goblygiadau PEIDIO â threulio'r amser yn deall y risgiau cysylltiedig â TG i'ch busnes ac, o ganlyniad, gwneud dim byd...

#### Manteision busnes

- Mae'n galonogol i'ch cwsmeriaid ac yn cadarnhau bod parhad eich gwasanaethau iddyn nhw yn rhywbeth rydych yn ei gymryd o ddifrif.
- Mae'n cynorthwyo wrth fynd i'r afael â gofynion rheoliadol penodol ar gyfer cynllunio parhad sy'n bodoli mewn rhai sectorau diwydiant fel gwasanaethau ariannol.
- Mae llai o achosion o sioc sydyn a digwyddiadau annisgwyl i'ch busnes .
- Gall arbed arian ichi drwy reolaethau mwy effeithlon, saernïaeth fwy effeithiol a lefelau priodol o ddiogelwch.

## Awgrymiadau Ardderchog

#### Treuliwch amser yn nodi'r risgiau posibl

Bydd y cam asesu risg yn sail i'r holl weithgarwch dilynol a gynhelir o fewn y broses rheoli risgiau, felly mae'n werth treulio digon o amser i sicrhau eich bod yn cael pethau'n iawn.

#### Mesurwch unrhyw risgiau y byddwch yn eu nodi

Nodwch flaenoriaeth unrhyw fygythiadau drwy raddio'r tebygolrwydd y byddan nhw'n digwydd a'r effaith debygol ar eich busnes. Bydd hyn yn sicrhau eich bod yn canolbwyntio ar y risgiau mwyaf sylweddol.

### Sicrhewch eich bod yn deall parodrwydd eich busnes i gymryd risg

Mae risg yn chwarae rhan hanfodol mewn busnes heddiw, felly dylid ystyried risg TG (fel gyda phob math o risg fusnes) yng nghyd - destun lefel y risg rydych yn gyfforddus â hi.

### Cytunwch ar y ffordd orau o ymdrin â'r risgiau

Datblygwch gynllun gweithredu ar gyfer mynd i'r afael â'r risgiau sy'n peri pryder penodol, gyda'r nod o'u lleihau Mor Isel ag sy'n Rhesymol Ymarferol (ALARP).

### Integreiddiwch eich cynlluniau rheoli risg a pharhad busnes

Sicrhewch fod gennych gynllun parhad busnes sy'n cwmpasu unrhyw risgiau difrifol sy'n ymwneud â TG na allwch eu rheoli'n llawn.

### Dyrannwch gyfrifoldebau i aelodau unigol o staff

Rhowch weithgarwch penodol sy'n ymwneud â rheoli risg i'ch staff a sicrhewch eu bod yn ymwybodol o'r hyn a ddisgwylir ganddyn nhw.

### Nid yw'n ymarfer untro

Adolygwch a diweddarwch eich asesiad risg TG a'ch cynllun parhad busnes yn rheolaidd i ystyried bygythiadau sy'n dod i'r amlwg.

### Dylai rheoli risgiau fod yn gost effeithiol

Sicrhewch fod unrhyw wrthfesurau a weithredir gennych yn gymesur â'r risgiau rydych yn diogelu yn eu herbyn.

### A yw’n werth chweil?

Ystyriwch y goblygiadau trychinebus posibl o beidio â deall y TG yn llawn – risgiau cysylltiedig y gallai eich busnes eu hwynebu.

## Y CAMAU NESAF

1. **Cofrestrwch i fod yn bresennol mewn Gweithdy Datblygu Busnes wedi'i ariannu'n llawn:**
   **http://business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy/digwyddiadau**

2. **Trefnwch apwyntiad i weld Ymgynghorydd Buses a fydd yn eich helpu I greu cynllun gweithredu personol i dyfu'ch busnes:**
   **http://business.wales.gov.uk/cy/cysylltwch-a-ni**

## Cadwch eich bys ar y pwls gyda Cyflymu Busnesau Cymru

Gweld sut mae busnesau eraill yng Nghymru wedi ymelwa o Fand Eang Cyflym Iawn:
**www.business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy/straeon-llwyddiant-cyflym**

---

Canfod faint allai'ch busnes chi arbed gyda'r cyfrifiannell arbedion:
**www.business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy/cyfrifwr-arbedion**

---

Mae Canllawiau Busnes eraill a allai fod o ddiddordeb i chi yn cynnwys:
**www.business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy/canllawiau-busnes-cyflym-iawn**

---

I gael yr wybodaeth ddiweddaraf yn fisol ar ddatblygiad busnes, newyddion technoleg a digwyddiadau tanysgrifiwch i Daflen Newyddion Busnes Cymru:
**https://public.govdelivery.com/accounts/UKWALES_CY/subscriber/new**

---

Am ragor o wybodaeth ffoniwch 03000 6 03000 neu ymwelwch â:
**www.business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy**